

CYMORTH ARIANNOL HUNANYNYSU COVID-19

Gallech gael taliad o £500 i helpu gyda cholli cyflog os ydych chi wedi cael cyngor i hunanyynysu a'ch bod ddim yn gallu gweithio gartref. Mae'r taliad hefyd i rieni a gofalwyr ar incwm isel gyda phlant sy'n hunanyynysu.

Cymhwyster

Er mwyn cael y taliad mae'n rhaid eich bod chi neu'ch plentyn wedi cael cais ffurfiol gan y gwasanaeth olrhain cyswllt i hunanyynysu.

- Mae angen i chi hawlio o fewn 21 diwrnod o'ch diwrnod olaf o hunanyynysu.
- Mae treth i'w thalu ar y taliadau ond does dim taliadau Yswiriant Gwladol. Ni ddylai effeithio ar eich budd-daliadau
- Rhaid i chi fod yn gweithio (cyflogedig neu hunangyflogedig) ac yn derbyn un o'r budd-daliadau canlynol:
 - Credyd Cynhwysol
 - Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, Credyd Treth Gwaith
 - Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
 - Cymhorthdal Incwm
 - Budd-dal Tai
 - Credyd Pensiwn

Os gofynnwyd i'ch plentyn hunanyynysu

Gall rhiant neu warcheidwad wneud cais am daliad os gofynnwyd yn ffurfiol i'w plentyn hunanyynysu.

I gael y taliad mae'n rhaid eu bod mynychu'r ysgol, addysg bellach neu ofal plant (hyd at a gan gynnwys Blwyddyn 11, neu hyd at 25 oed os oes ganddyn nhw anghenion cymhleth) a'u bod wedi cael cais ffurfiol i hunanyynysu gan naill ai:

- Gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru
- Lleoliad addysg neu ofal eich plentyn

Os ydych chi fel arfer yn gweithio a DDIM yn hawlio budd-daliadau gallech wneud cais am daliad dewisol

Gallwch wneud cais am daliad dewisol gan eich awdurdod lleol. Gellid gwneud taliad os oes gennych chi incwm yn llai na £500 yr wythnos.

I wybod mwy, ewch i: <https://llyw.cymru/chwiliwch-am-eich-awdurdod-lleol-i-wneud-cais-am-daliad-hunanyynysu>

Sut i wneud cais

Gwnewch gais ar-lein, ewch i: <https://llyw.cymru/chwiliwch-am-eich-awdurdod-lleol-i-wneud-cais-am-daliad-hunanyynysu>

Os ydych chi wedi eich nodi fel person cyswllt gan yr ap COVID-19, bydd rhaid i chi gofrestru gyda gwasanaeth Profi Olrhain Diogelu GIG Cymru. I wybod mwy ewch i: [faq.covid19.nhs.uk](https://www.nhs.uk/faq/covid19)

Gwneud cais ar ran rhywun arall

Gallwch wneud cais ar ran rhywun arall, ond rhaid i'r taliad gael ei wneud i gyfrif banc yr unigolyn sy'n hunanyynysu.

Os oes angen i chi hunanyynysu fwy nag unwaith

Gan efallai y gofynnir i chi hunanyynysu fwy nag unwaith gellir gwneud mwyafswm o 3 thaliad i unigolyn neu rieni neu ofalwyr plant sy'n hunanyynysu os bodlonir y meini prawf cymhwyster. Rhaid i'r cyfnodau ynysu beidio â gorgyffwrdd.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Gwent Test, Trace, Protect Service
Coordination Unit
Prawf Gwent, Olrhain, Gwasanaeth Amddiffyn
Uned Cydlynu